GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Sut rydym yn gwneud yng Nghymru?

## Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws

**Wythnos 31 (2il i 8fed o Dachwedd 2020)**

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd dros y ffôn yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sut mae coronafeirws a mesurau rheoli cysylltiedig yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles.

Mae'r arolwg yn cyfweld tua 600 o unigolion a ddewiswyd ar hap bob yn ail wythnos. Mae'r wybodaeth a gesglir yn sail i'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiadau bob pythefnos.

Caiff data arolwg eu haddasu i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.

Ym mhob wythnos arolwg, ychwanegir rhai cwestiynau a chrëir eraill, yn dibynnu ar faterion sy'n dod i'r amlwg. Mae adroddiad yr wythnos hon yn cynnwys canfyddiadau o gwestiynau a ddefnyddiwyd yn ystod wythnosau blaenorol yr arolwg a chwestiynau newydd a ychwanegwyd ar amlder o olchi gorchuddion gwyneb.

Rydym yn diolch i bobl Cymru am roi o'u hamser gwerthfawr i gynorthwyo'r gwaith yma.



# Prif ganfyddiadau’r wythnos hon

Cafodd 602 o drigolion Cymru sydd yn 18 oed ac yn hŷn eu cyfweld yn ystod wythnos 31 o’r arolwg (2il i’r 8fed o Dachwedd).

## 62%

yn dweud eu bod yn cefnogi'n gryf gyfnod clo cenedlaethol yng Nghymru i reoli lledaeniad y coronafeirws (25% yn ei gefnogi rhywfaint, 13% ddim yn cefnogi).

## 70%

o bobl yn gwisgo gorchudd gwyneb “y rhan fwyaf o’r amser” pan fyddant yn mynd allan (24% peth o'r amser, 6% byth/ddim yn berthnasol). Mae 67% yn defnyddio gorchuddion wyneb defnydd y gellir eu defnyddio eto a 51% yn defnyddio gorchuddion gwyneb tafladwy.*

## 40%

o bobl yn pryderu “llawer” a 33% “ychydig” am eu gallu i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau dros y misoedd nesaf, wrth i ni fynd i’r gaeaf.

## 21%

o bobl yn poeni’n fawr y gallent gael coronafeirws (33% yn poeni’n gymedrol, 29% yn poeni ychydig, 17% ddim yn poeni o gwbl.)

## 51%

o bobl sy’n gwisgo gorchuddion gwyneb defnydd yn eu golchi yn ddyddiol, 32% ar ôl 2-4 diwrnod o ddefnydd; 10% 5-10 diwrnod o ddefnydd; 2% yn fwy na 10 diwrnod a 5% erioed wedi'u golchi.

## 50%

o bobl wedi nodi bod eu hapusrwydd presennol yn uchel (sgoriau o 7-10 ar raddfa o 0-10). Dyma'r gyfran isaf ers i'r arolwg ddechrau.

## 22%

o bobl yn dweud eu bod wedi bod mewn cysylltiad agos gyda mwy na 10 o bobl o’r tu allan i’w cartref (neu aelwyd estynedig a ganiateir) yn ystod y 7 niwrnod diwethaf.

## 67%

o bobl sy’n defnyddio gorchuddion tafladwy yn eu taflu ar ôl eu defnyddio unwaith, tra mae 33% ddim yn gwneud hynny.

## 19%

o bobl yn dweud eu bod wedi teimlo’n “aml” neu “bob amser” yn ynysig yn ystod y 7 niwrnod diwethaf, a fod 13% wedi teimlo'n 'aml' neu 'bob amser' yn unig.

*gallai cyfranogwyr adrodd eu bod yn defnyddio dau fath o gorchudd gwyneb

# Ynglŷn â coronafeirws

**Ydych chi'n meddwl fod ganddoch neu eich bod wedi cael coronafeirws?**

| | |
|---|---|
| Do | 18% |
| Ddim yn gwybod | 8% |

**Ydych chi wedi cael eich profi am glefyd coronafeirws neu ydach chi wedi cael y prawf gwrthgyrff?**

| | |
|---|---|
| Wedi cael prawf coronafeirws | 27% |
| Wedi cael prawf gwrthgyrff | 6% |

**Pa mor bryderus ydych chi y gallech gael coronafeirws?**

*Yn cynnwys yr holl ymatebwyr*

| | |
|---|---|
| Dim o gwbl | 17% |
| Ychydig | 29% |
| Gymedrol | 33% |
| Hynod | 21% |

Wythnos 31 (2il i'r 8fed Tachwedd 2020)

# Ynglŷn â coronafeirws



# Tracio ac Olrhain




O'r rhai atebodd 'naddo'*:

## Rhesymau dros beidio fod wedi lawrlwytho'r ap




*Data heb ei bwyso.

# Gwybodaeth a chydymffurfio â'r cyfyngiadau

**Pa mor dda ydych chi'n teimlo eich bod yn deall y cyfyngiadau presennol sydd ar waith yng Nghymru i leihau lledaeniad coronafeirws?**




---

**Ar raddfa o 1 i 10, gydag 1 yn *ddim o gwbl* a 10 *yn llwyr*, i ba raddau fyddwch chi'n dweud eich bod yn dilyn y cyfyngiadau?**

Dim o gwbl — Yn llwyr

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1% | 1% | 1% | 1% | 2% | 1% | 5% | 18% | 27% | 45% |

---

**Dwi'n credu fod y rhan fwyaf o bobl yn dilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol**



# Cadw pellter cymdeithasol

| | Dim | 1 - 2 | 3 - 10 | Mwy na 10 |
|---|---|---|---|---|
| Ar wahân i'r bobl yn eich cartref chi eich hun neu aelwyd estynedig a ganiateir, yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o bobl eraill ydych chi wedi dod i gysylltiad agos â nhw, o fewn 1 metr? | 38% | 17% | 24% | 22% |
| Ar wahân i'r bobl yn eich cartref chi eich hun neu aelwyd estynedig a ganiateir, yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o bobl sydd wedi dod i mewn i'ch tŷ? | 77% | 19% | 4% | <1% |
| Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o dai pobl eraill rydych chi wedi bod ynddyn nhw - heb gynnwys tai aelwyd estynedig a ganiateir? | 84% | 10% | 2% | 4% |

# Gorchuddion gwyneb

| | Rhan fwyaf o'r amser | Peth o'r amser | Byth | Ddim yn berthnasol* |
|---|---|---|---|---|
| Pan fyddwch yn mynd allan, ydych chi'n gwisgo gorchudd gwyneb… | 70% | 24% | 4% | 2% |

## Pa un o'r mathau canlynol o orchudd wyneb ydych chi'n ei ddefnyddio yn eich amser personol, e.e. wrth siopa?#

| | |
|---|---|
| # Gorchudd tafladwy | 51% |
| Gorchudd gwyneb defnydd y gellir ei ail-ddefnyddio sgarff neu fandana | 67% |

**Os yn defnyddio gorchudd tafladwy ~**

### Ydych chi'n gwaredu eich masgiau gwyneb tafladwy ar ôl pob defnydd

| | |
|---|---|
| Ydw | 67% |
| Na | 33% |

**Os ydych yn defnyddio gorchudd gwyneb defnydd y gellir ei ailddefnyddio, sgarff neu fandana~**

### Pa mor aml ydych chi'n golchi'ch gorchudd gwyneb defnydd?

| | |
|---|---|
| Ar ôl pob defnydd / diwrnod | 51% |
| Ar ôl 2-4 diwrnod o'i ddefnyddio | 32% |
| Ar ôl 5-10 diwrnod o'i ddefnyddio | 10% |
| Ar ôl >10 days o'i ddefnyddio | 2% |
| Erioed wedi'i olchi | 5% |

*ddim yn mynd allan/wedi'i eithrio; #gellir dewis y ddau opsiwn; ~data heb ei bwysoli

Wythnos 31 (2il i'r 8fed Tachwedd 2020)

# Diogelwch personol

## Petai brechlyn ar gael a fyddai'n eich hamddiffyn rhag haint coronafeirws…

A fyddech chi'n bersonol eisiau cael eich brechu?




*I'r rhai sydd gyda plant yn yr aelwyd*:*

A fyddech eisiau i'ch plant gael eu brechu?




*Yn gyfyngedig i'r rhai sydd â phlant yn byw ar yr aelwyd; ac eithrio'r rhai a ymatebodd ' ddim yn berthnasol '; data heb ei bwysoli.

# Sut ydym yn teimlo heddiw?

## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref neu'ch gardd?




## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref…

| | 0 diwrnod | 1-2 diwrnod | 3-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| …i weithio | 57% | 7% | 8% | 28% |
| …i siopa | 25% | 54% | 11% | 10% |
| …am resymau meddygol | 79% | 20% | 1% | <1% |
| …i ymarfer corff | 45% | 16% | 9% | 30% |
| …i gwrdd â teulu / ffrindiau | 83% | 12% | 3% | 2% |

# Pa mor dda ydym ni'n ymdopi â choronafeirws?

## Ydych chi'n meddwl fod y cyfyngiadau sydd ar waith i reoli coronafeirws yn…




| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Credaf fod Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r problemau a achoswyd gan y coronafeirws yn dda | 17% | 53% | 12% | 13% | 5% |
| Rwyf yn hyderus y byddai GIG yn gallu gofalu amdanaf yn ddigonol pebawn yn ddifrifol wael gyda coronafeirws | 16% | 52% | 15% | 14% | 3% |
| Rwyf yn hyderus y gwnaiff yr heddlu ddefnyddio eu pwerau i gyfyngu ar symudiadau pobl yn synhwyrol | 14% | 48% | 12% | 17% | 8% |

# Ymatebion i coronafeirws

## I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r canlynol i reoli lledaeniad y feirws?*

| | Cefnogi'n gryf | Cefnogi rhywfaint | Ddim yn cefnogi |
|---|---|---|---|
| Cau tafarndai, bariau a bwytai dros dro | 61% | 25% | 14% |
| Cau siopau nad ydynt yn hanfodol dros dro | 36% | 34% | 30% |
| Cau ysgolion dros dro | 33% | 27% | 40% |
| Clo llawn Cymreig yn cael ei osod | 62% | 25% | 13% |

## Faint fyddech chi'n cefnogi…

| | Cefnogi'n gryf | Cefnogi rhywfaint | Ddim yn cefnogi |
|---|---|---|---|
| Clo llawn ledled y DU yn cael ei osod? | 55% | 22% | 23% |
| ..y datganiad: "Byddai'n well gennyf weld llai o gyfyngiadau, hyd yn oed os bydd heintiau'n parhau i gynyddu"? | 12% | 15% | 73% |

*Cynhaliwyd cyfweliadau yn ystod wythnos olaf y 'cyfnod atal byr' cenedlaethol o 17 niwrnod, a ddaeth i ben ar y 9fed o Dachwedd 2020.

# Ymatebion i goronafeirws

## Wrth feddwl am y cyfyngiadau a ddoth i rym ledled Cymru, pa mor gryf, os o gwbl, ydych chi'n teimlo am bob un o'r canlynol?

| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Ofn neu bryder | 52% | 33% | 15% |
| Ymdeimlad o ysbryd cymunedol | 36% | 39% | 25% |
| Rhwystredigaeth | 30% | 36% | 35% |
| Dicter | 56% | 30% | 14% |
| Rhyddhad | 51% | 38% | 11% |
| Anobaith | 56% | 28% | 15% |

# Gyfrifol dros risg o'r coronafeirws

## Pa mor gyfrifol ydych chi'n meddwl y dylai'r canlynol fod o ran eich diogelu rhag y risg o ddal coronafeirws?

| | Ddim yn gyfrifol o gwbl | Rhywfaint yn gyfrifol | Gyfrifol iawn |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | 9% | 45% | 46% |
| Llywodraeth Cymru | 7% | 40% | 53% |
| Awdurdodau lleol | 15% | 44% | 41% |
| Y GIG | 26% | 33% | 42% |
| Yr heddlu | 26% | 41% | 33% |
| Chi'n bersonol | 5% | 9% | 86% |

## A pha rai rydych chi'n meddwl sydd â'r cyfrifoldeb mwyaf am eich diogelu rhag y risg o ddal coronafeirws?

| | Cyfrifoldeb mwyaf |
|---|---|
| Llywodraeth y DU | 11% |
| Llywodraeth Cymru | 12% |
| Awdurdodau lleol | <1% |
| Y GIG | 3% |
| Yr heddlu | <1% |
| Chi'n bersonol | 74% |

# Y dyfodol

**Ymhen chwe mis, ydych chi'n meddwl**

| | Ydw | Nac ydw | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Y bydd gennym frechlyn sy'n amddiffyn y rhan fwyaf o bobl rhag coronafeirws | 38% | 33% | 29% |
| Y byddwn yn dal i gael cyfyngiadau lleol | 67% | 13% | 20% |
| Y bydd cyfyngiadau cenedlaethol ar waith | 44% | 31% | 25% |
| Y byddwn wedi dysgu byw gyda phobl sy'n cael eu heintio yn ein cymunedau | 74% | 13% | 13% |



# Ansawdd bywyd

**Yn gyffredinol, dros y 6 mis diwethaf, ydy'r cyfyngiadau clo a chyfyngiadau eraill coronafeirws wedi effeithio ar ansawdd eich bywyd?**

| | |
|---|---|
| Naddo | 25% |
| Do, mae wedi gwaethygu ansawdd fy mywyd | 72% |
| Do, mae wedi gwella ansawdd fy mywyd | 3% |

**Yn gyffredinol, dros y 6 mis diwethaf, ydy poeni am ddal coronafeirws wedi gwneud ansawdd eich bywyd yn waeth?**

| | |
|---|---|
| **Do** | 42% |
| Naddo | 58% |

# Am beth ydym ni'n ei boeni?

**Dros yr wythnos ddiwethaf, i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni chi?**

| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Mynd yn ddifrifol wael gyda coronafeirws | 34% | 43% | 23% |
| Colli rhywun annwyl i'r feirws | 20% | 31% | 49% |
| Lles eich plant*#~ | 12% | 36% | 52% |
| Addysg eich plant*#~ | 15% | 29% | 56% |
| Colli'ch swydd neu fethu â dod o hyd i un#~ | 59% | 20% | 21% |
| Gwaith, hyd yn oed os yw'ch swydd yn ddiogel#~ | 50% | 27% | 23% |
| Eich materion ariannol | 59% | 23% | 17% |
| Mynd allan i fannau cyhoeddus# | 37% | 40% | 23% |

*Yn gyfyngedig i'r rhai sydd â phlant sy'n byw ar yr aelwyd; ~Data heb eu pwysoli; #Ac eithrio'r rhai a ymatebodd 'ddim yn berthnasol'

# Am beth ydym ni'n ei boeni?

## Gan feddwl am yr ychydig fisoedd nesaf wrth i'r gaeaf agosáu, pa mor bryderus ydych chi am effaith cyfyngiadau coronafeirws ar y canlynol...?

| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Eich gallu i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau | 26% | 33% | 40% |
| Eich gallu i fodloni eich anghenion sylfaenol (e.e. cael bwyd, cynhesu eich cartref) | 65% | 24% | 12% |
| Eich iechyd a'ch lles meddyliol | 42% | 34% | 24% |
| Eich iechyd corfforol | 48% | 31% | 20% |
| Teimlo'n unig neu'n ynysig yn gymdeithasol | 55% | 27% | 18% |
| Eich materion ariannol | 60% | 25% | 16% |

Wythnos 31 (2il i'r 8fed Tachwedd 2020)

# Sut ydym yn teimlo?

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo'n iach** | **Pa mor iach ydych chi'n teimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn iach o gwbl; 10 = Iach iawn | 8% | 40% | 52% |

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo'n hapus** | **Pa mor hapus ydych chi'n teimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn hapus o gwbl; 10 = Hapus iawn | 8% | 41% | 50% |

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo'n bryderus** | **Pa mor bryderus ydych chi'n ei deimlo heddiw?**<br>0 = Not at all anxious; 10 = Completely anxious | 49% | 34% | 18% |

| | | 0 diwrnod | 1-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| **Ymarfer corff** | **Sawl diwrnod yn ystod yr wythnos diwethaf wnaethoch chi o leiaf 30 munud o ymarfer corff (digon i wneud i chi golli eich anadl)?** | 29% | 30% | 41% |

Wythnos 31 (2il i'r 8fed Tachwedd 2020)

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Sut ydym yn teimlo?

**Yn ystod yr wythnos diwethaf, pa mor aml ydych chi wedi teimlo'n….**

| | Unig | Ynysig |
|---|---|---|
| Byth | 63% | 53% |
| Weithiau | 24% | 28% |
| Yn aml | 10% | 12% |
| Wastad | 3% | 7% |

---

**Dros yr wythnos ddiwethaf, i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni?**

Eich iechyd a'ch lles meddyliol

| | |
|---|---|
| Dim o gwbl | 42% |
| Ychydig | 35% |
| Llawer | 24% |

Wythnos 31 (2[il] i'r 8[fed] Tachwedd 2020)

# Cyhoeddwyd Tachwedd 12fed 2020

## Ymholiadau

**Datblygydd yr Arolwg**

Yr Athro Mark A Bellis

**Data a Dadansoddeg**

Yr Athro Karen Hughes

**Cymorth Dadansoddol**

Dr Emma Harrison

**E-bost**
Ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

**Ffôn**
02920 227744

**Wê**
icc.gig.cymru

**Polisi a Iechyd Rhyngwladol,
Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

Llawr 5, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall,
Caerdydd, CF10 4BZ

## Sut wyt ti?

Am wybodaeth cyffredinol ar sut i edrych ar ôl eich hunan, eich ffrindiau a'ch teulu yn ystod cyfyngiadau coronafeirws ymwelwch â:

**icc.gig.cymru/sut-wyt-ti**

